# Hysbysiad o Etholiad

## Ethol Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol ar gyfer y Wardiau Etholiadol a restrir isod

## Dyddiad yr Etholiad: Dydd Iau, 5 Mai 2022

| **Ward Etholiadol** | **Nifer y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol i gael eu hethol** | **Ward Etholiadol** | **Nifer y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol i gael eu hethol** |
|---|---|---|---|
| Bae Cinmel | TRI | Llandrillo-yn-Rhos | PEDWAR |
| Betws-y-coed a Threfriw | UN | Llanrwst a Llanddoged | DAU |
| Betws-yn-Rhos | UN | Llansanffraid | UN |
| Bryn | UN | Llansannan | UN |
| Caerhun | UN | Llysfaen | UN |
| Colwyn | DAU | Mochdre | UN |
| Conwy | DAU | Pandy | UN |
| Craig-y-don | DAU | Penmaenmawr | DAU |
| Deganwy | DAU | Penrhyn | DAU |
| Eglwys-bach a Llangernyw | UN | Pen-sarn Pentre Mawr | TRI |
| Eirias | DAU | Rhiw | TRI |
| Gele a Llanddulas | TRI | Tudno | DAU |
| Glyn | DAU | Tywyn | UN |
| Glyn y Marl | TRI | Uwch Aled | UN |
| Gogarth Mostyn | TRI | Uwch Conwy | UN |

## Cael papurau enwebu

1. Gellir cael papurau enwebu gan y Swyddog Canlyniadau un ai ym Modlondeb, Conwy, LL32 8DU neu'n electronig drwy etholiadol@conwy.gov.uk.

## Cyflwyno papurau enwebu

2. Rhaid cyflwyno'r papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau ddim hwyrach na 4pm ddydd Mawrth, 5 Ebrill 2022.

3. Gellir danfon papurau enwebu yn bersonol i'r Swyddog Canlyniadau ym Modlondeb, Conwy, LL32 8DU rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn (ac eithrio gwyliau banc) neu'n electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad cyflwyno electronig isod.

4. Os oes mwy nag un ymgeisydd yn yr etholiad, bydd y bleidlais yn cael ei chynnal ddydd Iau, 5 Mai 2022.

## Cofrestru Etholwyr

5. Rhaid i geisiadau i ychwanegu enw at y Gofrestr Etholwyr er mwyn pleidleisio yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU erbyn **dydd Iau, 14 Ebrill 2022**. Gellir cyflwyno ceisiadau ar-lein yn www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio.

## Pleidlais bost a thrwy ddirprwy

6. Dylai etholwyr a'u dirprwyon nodi bod yn rhaid i bob cais am bleidlais bost newydd, neu bob cais i ddiwygio neu ganslo pleidlais bost bresennol gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU erbyn **5pm, ddydd Mawrth, 19 Ebrill 2022.** Mae hyn yn cynnwys etholwyr neu eu dirprwyon sy'n dymuno diwygio eu trefniadau presennol yn barhaol.

7. Rhaid i bob cais am bleidlais drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU erbyn **5pm, ddydd Mawrth, 26 Ebrill 2022.**

8. Rhaid i geisiadau i bleidleisio trwy ddirprwy brys yn yr etholiad hwn ar sail anallu corfforol neu am resymau gwaith/gwasanaeth neu'r angen i gydymffurfio â deddfiad neu ganllaw gan Weinidogion Cymru sy'n ymwneud â'r coronafeirws gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn **5pm, ddydd Iau, 5 Mai 2022**. Rhaid i'r anallu corfforol fod wedi digwydd ar ôl 5pm ddydd Mawrth, 26 Ebrill 2022. I ymgeisio ar sail gwaith/gwasanaeth neu coronafeirws, mae'n rhaid i'r unigolyn fod wedi dod i wybod na allant fynd i'r orsaf bleidleisio eu hunain ar ôl 5pm ddydd Mawrth, 26 Ebrill 2022.

## Datganiad cyflwyno'n electronig

9. Gellir cyflwyno papurau enwebu yn electronig yn unol â threfniadau a nodir yn y datganiad hwn -
   - **Gwiriadau anffurfiol** - dros e-bost at etholiadol@conwy.gov.uk. Rhowch 'GWIRIAD ANFFURFIOL – LGE22' yn nhestun y neges
   - **Cyflwyno enwebiadau** - ewch i www.conwy.gov.uk/enwebiadau a chyflwynwch y papur enwebu drwy'r porth ar-lein

   Sylwer:

   - Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn cael y ffurflenni enwebu yn y ffordd gywir erbyn y dyddiadau cau.
   - Nid yw derbynneb electronig bod y neges wedi ei ddarllen gan y Swyddog Canlyniadau yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad i roi gwybod i ymgeiswyr am ei benderfyniad a yw eu henwebiad yn ddilys neu beidio.
   - Os bydd arnoch angen cymorth i gyflwyno eich enwebiadau'n electronig, cysylltwch ag etholiadol@conwy.gov.uk.



**Iwan Davies, Swyddog Canlyniadau**

Dyddiedig: Dydd Gwener, 18 Mawrth 2022

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU

Rhif ffôn: 01492 576052